Estyn

Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Bro Cernyw

**Llangernyw**
**Abergele**
**Conwy**
**LL22 8PP**

**Dyddiad yr arolygiad: Medi 2023**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Bro Cernyw

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Bro Cernyw |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 96 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 69 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 14 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn Cynradd yw 23.0%) | 6.0% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn Cynradd yw 16.1%) | |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 66.7% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2007 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 19/01/2016 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 25/09/2023 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.
Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: [Fy Ysgol Leol (gov.wales)]

a. Mae'r term 'anghenion addysg arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Trosolwg

Mae arweinyddiaeth gadarn ynghyd â staff cydwybodol yr ysgol yn meithrin lles, gofal a chymorth disgyblion yn hynod effeithiol. Maent yn adnabod y disgyblion yn dda ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o gryfderau a meysydd gwella'r ysgol. Gyda'r wybodaeth hon, maent yn mynd ati'n gydwybodol i wella'r ddarpariaeth a sicrhau bod cymuned glòs yn bodoli yn yr ysgol. Drwy hyn, ac ymdeimlad cartrefol a chynhwysol sy'n cael ei greu, mae disgyblion yn arddel agweddau cadarnhaol at eu dysgu.

Nodwedd gref o'r addysgu a'r dysgu yw'r modd mae disgyblion yn datblygu medrau llafar cadarn yn ystod eu hamser yn yr ysgol. Mae disgyblion hefyd yn meithrin cariad tuag at ddarllen yn fwriadus, gyda'r rhan fwyaf yn ddarllenwyr hyderus erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol. Mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd priodol i ddisgyblion ddefnyddio eu medrau craidd, fel eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol, ar draws y cwricwlwm. Er bod enghreifftiau da o'r cyfleoedd hyn, sy'n datblygu medrau'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gadarn, nid oes digon o gyfleoedd cyson iddynt adeiladu ar eu medrau rhifedd, digidol ac ysgrifennu estynedig, yn gyffredinol.

Mae'r berthynas waith rhwng athrawon a'r disgyblion yn gryfder, ac mae'r gofal, y cymorth a'r arweiniad y maent yn eu cynnig i ddisgyblion yn effeithiol iawn. Mae'r staff cyfan yn rhyngweithio â disgyblion ac â'i gilydd yn hynod effeithiol, sy'n creu amgylchedd dysgu cynhyrchiol. Mae hyn yn cefnogi disgyblion i fagu brwdfrydedd at eu dysgu yn llwyddiannus. Mae athrawon yn gweithio'n ddiwyd i sicrhau bod y rhan fwyaf o weithgareddau yn ennyn diddordeb disgyblion, gan roi adborth a chymorth defnyddiol iddynt, ar y cyfan. Er hyn, ar adegau, mae athrawon yn darparu gormod o arweiniad i ddisgyblion sy'n llesteirio eu gallu i ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol ac nid yw pob tasg yn llwyddo i herio'r disgyblion i gyflawni hyd eithaf eu gallu.

## Argymhellion

A1 Cynyddu cyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd, eu medrau digidol, a'u gallu i ysgrifennu'n estynedig ar draws y cwricwlwm

A2 Sicrhau bod athrawon yn herio disgyblion hyd eithaf eu gallu, ac yn darparu cyfleoedd cyson iddynt ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol yn effeithiol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dechrau'r ysgol gyda medrau llythrennedd, rhifedd a chymdeithasol sy'n cyfateb i'w cam datblygu. Dros eu cyfnod yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd cadarn mewn ystod eang o fedrau.

Ar y cyfan, mae medrau llythrennedd disgyblion yn datblygu'n gadarn. Cryfder amlwg yw'r modd mae'r rhan fwyaf yn cyfathrebu'n eglur a chynhyrchiol â'i gilydd ac oedolion. Maent yn sgwrsio'n aeddfed wrth fynd ati i gwblhau tasgau ac yn gwrando'n ofalus ar gyfraniadau eraill. Erbyn diwedd eu hamser yn yr ysgol, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion fedrau llafar hynod gadarn ac maent yn defnyddio geirfa eang a choeth yn Gymraeg yn llwyddiannus. Gyda gallu da gan y rhan fwyaf o ddisgyblion i ddangos parch at deimladau pobl ac adnabyddiaeth o bryd a sut i gynnwys eraill mewn sgyrsiau, maent yn datblygu'n gyfathrebwyr huawdl a chwrtais.

Mae llawer o ddisgyblion yn frwdfrydig i ddysgu mwy am eu themâu ac yn awyddus i ddarllen deunyddiau ynglŷn â'r meysydd gan fynd ati i ysgrifennu mewn ffurfiau gwahanol yn deillio o'r hyn y maent wedi ei ddarganfod. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 1 a 2 yn darllen ac yn creu erthygl i'r papur bro yn ailadrodd eu stori dosbarth 'Ar ôl y storm', gan nodi'r prif ddigwyddiadau ac ystyried teimladau cymeriadau'r stori yn effeithiol. Erbyn diwedd eu hamser yn yr ysgol, mae medrau darllen cadarn gan y rhan fwyaf o ddisgyblion. Mae'r darllenwyr uwch eu gallu yn darllen yn rhugl ac yn arddangos diddordeb a chariad at ddarllen llyfrau ffuglen amrywiol. Maent yn cymhwyso eu medrau darllen yn effeithiol wrth gywain gwybodaeth o ffynonellau gwahanol, er enghraifft ynglŷn â chynefinoedd anifeiliaid gwahanol er mwyn creu pamffled sy'n cynnwys gwybodaeth ddifyr.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion ieuengaf yn datblygu eu medrau ysgrifennu cynnar yn llwyddiannus drwy arbrofi a chreu marciau gydag adnoddau amrywiol. Wrth iddynt aeddfedu, maent yn adeiladu ar eu medrau ysgrifennu yn effeithiol mewn amrediad cyfoethog o ffurfiau, er enghraifft wrth ysgrifennu stori greadigol am fôr-ladron a chrynhoi ffeithiau am yr octopws yn drefnus. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer yn ysgrifennu brawddegau syml gan dalu sylw addas i atalnodi sylfaenol. Mae llawer o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn awyddus i ddefnyddio geirfa newydd ac yn ei chymhwyso'n effeithiol yn eu gwaith ysgrifenedig, er enghraifft wrth i ddisgyblion Blwyddyn 3 a 4 ddisgrifio deunyddiau Celtaidd fel rhai 'esmwyth', 'miniog', neu 'garw'. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion hynaf yn ysgrifennu mewn ffurfiau gwahanol gan amlygu dealltwriaeth dda o reolau gramadegol ac ystyriaeth briodol o'r gynulleidfa. Maent yn gwneud defnydd effeithiol o ansoddeiriau yn eu darnau ysgrifenedig, er enghraifft wrth gyfansoddi cerddi diddorol neu wrth greu cymeriadau cartŵn. Er hyn, ar draws yr ysgol, mae'r gorddefnydd o daflenni gwaith a thasgau caeedig yn llesteirio'r cyfleoedd i ddisgyblion ysgrifennu'n estynedig ac yn gynyddol annibynnol.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn eu medrau sylfaenol rhif a'u dealltwriaeth fathemategol. Ar draws yr ysgol, mae enghreifftiau o ddisgyblion yn cymhwyso eu medrau rhifedd ymhellach mewn meysydd ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 3 a 4 yn llunio graffiau bar i ddangos grwpiau bwyd gwahanol yn gywir. Fodd bynnag, nid yw'r athrawon yn darparu cyfleoedd

rhifedd yn ddigon cyson i ddisgyblion gymhwyso eu medrau ar draws y cwricwlwm, ac nid ydynt yn herio disgyblion i gyflawni hyd orau eu gallu bob tro. O ganlyniad, nid yw ychydig o ddisgyblion yn cyflawni hyd orau eu gallu bob tro.

Pan gânt y cyfle, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos brwdfrydedd wrth fynd ati i weithio gyda theclynnau technoleg er mwyn datblygu eu medrau digidol. Mae llawer o ddisgyblion y dosbarth meithrin a derbyn, er enghraifft, yn hyderus wrth ddefnyddio'r bwrdd gwyn rhyngweithiol wrth gofnodi aelodau o'u teulu ac yn deall sut i dynnu llun gyda llechen, ei arbed a'i rannu, fel bod rhieni'n gallu gweld eu gwaith. Wrth i ddisgyblion symud dryw'r ysgol, mae medrau digidol y mwyafrif yn datblygu'n raddol. Ym Mlwyddyn 3 a 4, maent yn ymchwilio'n ystyrlon ar y we i ddarganfod gwybodaeth am gestyll Cymru gan ystyried pa mor ddibynadwy yw'r gwahanol safleoedd gwe. Erbyn brig yr ysgol, gall llawer lunio graffiau gwahanol sy'n cynrychioli data o'u gweithgareddau, a defnyddio sgrin werdd er mwyn creu cyflwyniadau menter a busnes ar gyfer cystadleuaeth 'Y Criw Mentrus'. Fodd bynnag, ar draws yr ysgol, nid yw disgyblion yn cael cyfleoedd digon bwriadus a heriol i gymhwyso a datblygu'r ystod lawn o fedrau digidol.

Mae medrau creadigol a chorfforol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda. Mae disgyblion meithrin a derbyn yn efelychu symudiadau anifeiliaid gan newid ystum eu corff yn ofalus. Ym Mlwyddyn 1 a 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio paent yn greadigol I wneud lluniau o anifeiliaid. Wrth weithio'n  ymarferol gyda phren, maent yn dylunio draenog gan adnabod yn fras y deunyddiau sydd eu hangen, ac yn llunio cynllun syml ar gyfer eu cynnyrch terfynol. Ym Mlwyddyn 3 a 4, mae disgyblion yn creu tarian Geltaidd gan ystyried siâp a ffurf benodol yn gywir. Yn ogystal, maent yn creu darnau o gelf deniadol o anifeiliaid gwyllt yr ardal, gan ddefnyddio deunydd naturiol wrth ystyried gwedd, lliwiau a siâp yn ofalus. Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn profi llwyddiant o ran eu medrau corfforol a chreadigol mewn cystadlaethau'r Urdd, er enghraifft wrth greu gemwaith, tecstilau creadigol, dawnsio gwerin a chlocsio a pherfformio mewn partïon cerdd dant.

### Lles ac agweddau at ddysgu

Mae'r berthynas ofalgar a theuluol sy'n bodoli ymhlith disgyblion a'i gilydd, a rhwng disgyblion a staff, yn gryfder. Mae hyn yn annog disgyblion i fagu brwdfrydedd at eu dysgu yn llwyddiannus.

Mae bron bob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol a'u bod yn derbyn cymorth gofalgar. Maent yn hapus, yn gwrtais at oedolion, ac at ei gilydd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn trin ei gilydd yn deg a gyda pharch, ac yn gwybod at bwy i droi am gyngor os oes unrhyw beth yn eu poeni. Maent yn hyderus bod staff yn ymateb ar unwaith i'w pryderon ac yn eu cynorthwyo'n briodol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo bod staff yn gwrando arnynt a bod eu cyfraniad at fywyd ysgol yn cael ei werthfawrogi. Er enghraifft, maent yn gwneud defnydd effeithiol o'r 'ardal les' pan fo angen i gael cefnogaeth am bryder neu ofid penodol. Mae'r disgyblion yn deall rheolau'r ysgol, ac yn gwrando'n ofalus ar eu cyfoedion ac ar oedolion. O ganlyniad, mae bron bob disgybl yn ymddwyn yn dda iawn mewn gwersi ac yn ystod amser egwyl a chinio, gan gynnwys yn ystod cyfleoedd iddynt chwarae gemau gyda'i gilydd yn y neuadd yn ystod amser egwyl gwlyb.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol at eu dysgu ac yn falch o'r cyfle i ymgolli mewn gweithgareddau sydd o ddiddordeb iddynt. Wrth gynllunio themâu a gweithgareddau posibl ar gyfer y dosbarth, mae disgyblion yn cynnig awgrymiadau pwrpasol am gynnwys cwestiynau ymholi, er enghraifft wrth ystyried nodweddion y thema 'Cymru'.

Mae bron bob un o'r disgyblion yn siarad yn hyderus ag ymwelwyr ac oedolion eraill, er enghraifft wrth drafod eu gwaith a'u profiadau tu allan i'r dosbarth. Dangosant ddiddordeb yn y gwersi, er enghraifft wrth ddangos brwdfrydedd i lunio llythyr o ddiolch i Dafydd Iwan am ddod i ganu i'r ysgol yn dilyn gemau pêl-droed rhyngwladol Cymru.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn falch o'r adborth maent yn ei gael gan staff wrth gwblhau tasgau ac yn gwerthfawrogi profiad buddiol gwirio eu gwaith eu hunain. Trwy adnabod eu meini prawf llwyddiant, maent yn dechrau gwerthuso natur eu hymatebion i'r gwahanol dasgau maent yn eu cyflawni. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn dangos dyfalbarhad wrth ddatblygu i fod yn ddysgwyr cydwybodol sy'n cefnogi ei gilydd yn dda o fewn eu gweithgareddau. Maent yn datblygu medrau meddwl effeithiol ac yn dangos gwydnwch wrth ganolbwyntio'n barhaus â'u gwaith.

Mae aelodau o'r cyngor ysgol yn cymryd eu dyletswyddau o ddifri ac yn cyfrannu'n synhwyrol at fywyd a gwaith yr ysgol. Maent yn datblygu eu medrau arwain yn effeithiol, er enghraifft wrth drefnu diwrnodau lles ar gyfer eu cyfoedion, ac wrth drefnu a chynnal bore coffi 'Estyn llaw' i godi arian ar gyfer apêl daeargrynfeydd Syria a Thwrci.

Mae gan bron bob disgybl ddealltwriaeth gadarn o sut i gadw eu hunain yn ddiogel ar-lein. Maent yn gwybod am bwysigrwydd diogelu eu gwybodaeth bersonol a rhoi gwybod i oedolyn am bryderon. Mae ymweliadau gan swyddog cymunedol yr heddlu yn atgyfnerthu hyn yn fwriadus. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach, ac yn deall effaith ymarfer corff ar eu hiechyd. Mae disgyblion yn esbonio pam y mae'n fuddiol bwyta diet cytbwys, er enghraifft wrth lunio posteri i hysbysu cymuned yr ysgol o bwysigrwydd hyn. Maent yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd i gadw'n heini drwy weithgareddau chwaraeon ar ôl ysgol, fel y clwb sgiliau neu drwy gymryd rhan yng ngala nofio'r ardal.

Trwy eu hymwybyddiaeth o degwch a chydraddoldeb, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu i fod yn ddinasyddion moesegol a gwybodus. Er enghraifft, maent yn dangos parch at wahanol grefyddau yn ystod y gwasanaethau boreol, ac wrth astudio Iddewiaeth yn ystod eu gwaith am yr Ail Ryfel Byd.

### Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae'r staff wedi cydweithio'n effeithiol er mwyn darparu cwricwlwm diwygiedig sy'n cyd-fynd yn ystyrlon â Chwricwlwm i Gymru. Maent yn awyddus i arbrofi â syniadau gwahanol o ran dulliau cyflwyno'r cwricwlwm ac yn parhau i'w haddasu yn synhwyrol. Mae athrawon yn cynllunio profiadau dysgu sy'n eang a diddorol sy'n darparu cyfleoedd priodol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau. Mae staff yn cydweithio'n ddiwyd i benderfynu ar themâu ystyrlon i ddisgyblion, ac mae'r gweithgareddau a gynllunnir yn aml yn seiliedig ar syniadau'r disgyblion, y rhieni ac aelodau'r gymuned leol. Mae'r themâu gan amlaf yn ennyn diddordeb y disgyblion yn dda; er enghraifft,

mae disgyblion yn ymddiddori wrth fynd ati i astudio rhyfeddodau’r Hydref ym Mlwyddyn 1 a 2, a dysgu am y Celtiaid a’r Ail Ryfel Byd yn y dosbarth ar frig yr ysgol. Yn achlysurol, cânt eu cyfoethogi ymhellach trwy wahodd unigolion o’r gymuned i rannu eu profiadau â’r disgyblion, a threfnu ymweliadau buddiol sy’n ymwneud â’u thema. O fewn llawer o feysydd dysgu a phrofiad, mae’r gweithgareddau’n adeiladu’n gydlynus ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau cyfredol disgyblion i sicrhau dilyniant wrth iddynt symud drwy’r ysgol. O ganlyniad, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu.

Gan amlaf, mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd priodol i ddisgyblion gymhwyso’u medrau ar draws y cwricwlwm. Mae enghreifftiau addas ar draws yr ysgol ble mae disgyblion yn cael cyfleoedd i ddatblygu a chymhwyso eu medrau rhifedd. Fodd bynnag, nid yw’r profiadau hyn yn cael eu darparu’n ddigon cyson, nac yn herio disgyblion i gyflawni hyd orau eu gallu bob tro. Mae medrau digidol disgyblion yn datblygu’n raddol, gyda chyfleoedd achlysurol yn cael eu cyflwyno iddynt wella eu medrau, yn enwedig wrth ymchwilio ar y we neu drwy ddefnyddio dulliau a meddalwedd gwahanol i gyflwyno gwybodaeth. Er hyn, mae’r cyfleoedd iddynt ddatblygu ystod lawn o fedrau digidol sy’n eu herio i wneud cynnydd cyson yn rhy gyfyng. Mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd diddorol a bwriadus ar gyfer datblygu medrau llythrennedd disgyblion, yn enwedig eu medrau siarad a darllen. Ar y cyfan, mae’r athrawon yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion feistroli eu medrau ysgrifennu drwy ystod o ffurfiau ysgrifennu gwahanol. Er hyn, mae’r gorddefnydd o daflenni gwaith a gorarweiniad gan staff ar adegau yn llesteirio gallu disgyblion i ysgrifennu’n estynedig. Yn ogystal, nid yw athrawon yn darparu cyfleoedd digon cyson i ddisgyblion ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol.

Mae perthynas waith agos a hyfryd yn bodoli rhwng yr holl staff a’r disgyblion, sy’n creu naws gynhwysol ym mhob dosbarth. O ganlyniad, mae amgylchedd dysgu cynhyrchiol ac agweddau dysgu cadarn gan y rhan fwyaf o ddisgyblion. Mae staff cynorthwyol yn gydwybodol iawn ac yn cefnogi athrawon yn effeithiol i ddatblygu medrau a lles disgyblion.

Ar draws yr ysgol, mae’r staff yn modelu iaith yn hynod effeithiol ac yn annog disgyblion i ddefnyddio iaith lafar gywir, yn enwedig yn y Gymraeg. O ganlyniad, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau llafar effeithiol, gyda’r mwyafrif yn datblygu i fod yn gyfathrebwyr huawdl ac hyderus dros ben. Mewn llawer o’r dosbarthiadau lle mae’r addysgu ar ei orau, mae disgwyliadau’r athrawon yn uchel a threfniadaeth y dosbarth yn gadarn. Yn yr achosion hyn, mae cyflwyniadau athrawon yn fyrlymus ac yn ysgogol sy’n ennyn diddordeb y rhan fwyaf o ddisgyblion yn llwyddiannus.

Mae athrawon a’r cymorthyddion yn darparu adborth llafar gwerthfawr i gynorthwyo’r disgyblion i wella’u gwaith. Maent yn defnyddio dulliau holi yn bwrpasol gan annog disgyblion i ymestyn eu hymatebion. Pan fo’n briodol, mae athrawon yn darparu adborth ysgrifenedig effeithiol iddynt, sy’n ddefnyddiol i hybu disgyblion i wella eu gwaith. Ar adegau, maent hefyd yn hybu disgyblion i ddatblygu eu medrau meddwl ynglŷn ag ansawdd yr hyn maent yn ei gyflwyno. Mae’r holl staff yn adnabod anghenion disgyblion yn dda a, gan amlaf, yn teilwra’r amcanion dysgu yn briodol er mwyn eu cefnogi a’u cymell i gyflawni yn eu tasgau. Er hyn, ar draws yr ysgol, nid yw gweithgareddau dysgu yn herio’r disgyblion i gyflawni hyd orau eu gallu bob tro.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar a hapus sy'n cefnogi anghenion emosiynol, iechyd a chymdeithasol pob un o'r disgyblion yn effeithiol. Mae gan y pennaeth a'r holl staff adnabyddiaeth drylwyr o bob disgybl sy'n eu galluogi i ddarparu gofal a chymorth effeithiol iddynt. Mae'r pwyslais cryf a roddir ar hybu ymddygiad cadarnhaol a pharch at ei gilydd yn amlygu ei hun ym medrau personol ac agweddau cwrtais ardderchog disgyblion.

Mae staff yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn effeithiol. Maent yn darparu cyfleoedd gwerthfawr, fel y sesiynau cydaddoli dyddiol, sy'n galluogi'r disgyblion i fyfyrio ar werthoedd pwysig, er enghraifft nodweddion o beth sy'n gwneud ffrind da. Rhoddir pwyslais ar gyfle cyfartal a bod cyfraniad pob disgybl yr un mor bwysig â'i gilydd fel elfen flaenllaw o weledigaeth arweinwyr yr ysgol, sef 'Dysgu gyda'n gilydd yn hapus a diogel'. Mae hyn yn cael ei weithredu'n hynod dda ym mhob agwedd o fywyd yr ysgol.

Mae staff yn hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o'u hunaniaeth, treftadaeth a'r diwylliant Cymreig yn hynod effeithiol. Mae hyn cynnwys dysgu am hanes Owain Glyndŵr, dathlu diwrnod Cariad@Urdd a chroesawu ymwelwyr i hyrwyddo traddodiadau Cymreig gan gynnwys canu, clocsio a barddoni gyda'r disgyblion. Mae'r cyswllt â'r capel a'r eglwys leol yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion berfformio a chymryd rhan mewn gwasanaethau, er enghraifft wrth ddathlu'r ŵyl diolchgarwch.

Ar y cyfan, mae athrawon yn darparu cyfleoedd priodol i ddisgyblion ddatblygu gwerthoedd cadarn ac archwilio eu credoau a'u gwerthoedd eu hunain. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 1 a 2 yn dysgu am draddodiadau Divali mewn amrywiaeth effeithiol o weithgareddau perthnasol. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid yw'r cyfleoedd hyn yn cael eu cynllunio'n gyson ar draws yr ysgol. Yn ogystal, prin iawn yw'r cyfleoedd i hyrwyddo hawliau plant.

Darperir cyfleoedd gwerthfawr i'r holl ddisgyblion ymgymryd â chyfrifoldebau a chyfrannu at fywyd yr ysgol a'r gymuned ehangach. Er enghraifft, mae'r holl ddisgyblion yn derbyn clod fel 'Seren Yr Wythnos' yn eu tro ac yn cael cyfle I ddathlu gwaith ar yr arddangosfa 'Wal Waw'. Mae athrawon yn cynnig cyfleoedd bwriadus i gynnwys llais disgyblion wrth deilwra'r cwricwlwm, er enghraifft wrth gynllunio gweithgareddau a digwyddiadau y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Trwy hyn, mae disgyblion yn datblygu eu medrau entrepreneuraidd yn effeithiol wrth gynllunio a chynnal mentrau busnes yn y ffeiriau Nadolig a'r haf.

Mae athrawon yn olrhain cynnydd disgyblion, gan gynnwys disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), yn bwrpasol. Mae'r Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r cymhorthydd sy'n gyfrifol am y rhaglenni cefnogaeth yn brofiadol yn y maes ac yn angerddol dros eu cyfrifoldebau a datblygiad disgyblion. Maent wedi sefydlu trefniadau cefnogi gwerthfawr ac mae ganddynt adnabyddiaeth drylwyr o bob un disgybl, gan gynnwys y rhai hynny sy'n destun pryder neu angen cymorth pellach. Er enghraifft, maent yn adnabod anghenion disgyblion sydd ag anghenion lleferydd yn gynnar ac yn diwallu eu anghenion yn effeithiol. Mae gan yr ysgol gyswllt clòs a chynhyrchiol gydag ystod eang o asiantaethau allanol i gefnogi'r

ddarpariaeth ADY, er enghraifft seicolegwyr addysg a chymorth cwnsela, sy'n rhan allweddol o'r gefnogaeth i ddisgyblion penodol.

Mae'r pennaeth a'r staff yn diwallu anghenion lles disgyblion yn llwyddiannus. Er enghraifft, darperir gweithgareddau gwerthfawr fel diwrnodau lles penodol megis 'Haul a hwyl' a 'Splash a Sbri'. Mae'r ardal les ar gyfer disgyblion sydd angen cyfnod tawel o'r dosbarth yn sicrhau cefnogaeth gadarn iddynt. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer hybu iechyd a ffitrwydd yn boblogaidd ymhlith disgyblion ac yn cael effaith gadarn ar eu lles a'u datblygiad personol ac addysgol.

Mae'r ysgol yn monitro presenoldeb disgyblion yn effeithiol. Mae'r gweithdrefnau i herio presenoldeb isel disgyblion yn gynhwysfawr ac yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar bresenoldeb.

Mae'r diwylliant diogelu yn flaenoriaeth i bob aelod o staff ar draws yr ysgol ac maent yn sicrhau bod pob disgybl yn ymwybodol o sut i gadw'n ddiogel ar-lein. Mae trefniadau'r ysgol i gadw disgyblion yn ddiogel yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir sydd wedi ei seilio ar 'Barch, Ymdrech, Mwynhad a Llwyddiant'. Mae'r weledigaeth hon wedi gwreiddio'n ddwfn ac yn gosod sail gadarn i amgylchedd dysgu ofalgar a chymunedol yr ysgol. Mae tîm ymroddgar o staff yn cydweithio'n effeithiol o dan arweiniad pwyllog a doeth y pennaeth, ac yn rhoi o'u gorau er lles a chynnydd pob disgybl. Caiff naws Gymreig naturiol yr ysgol ei hatgyfnerthu gan fodelu effeithiol o'r iaith gan staff ac ystod fwriadus o brofiadau i ddatblygu disgyblion brwdfrydig a hyderus.

Mae aelodau'r  corff llywodraethol yn adnabod yr ysgol yn dda. Maent yn dathlu cryfderau'r ysgol ac magu hyder i adnabod a monitro agweddau o'r ddarpariaeth sydd angen eu gwella. Mae'r aelodau'n rhan o'r prosesau hunanwerthuso ac yn gwneud defnydd effeithiol o ymweliadau i'r ysgol, er enghraifft wrth graffu ar waith disgyblion. Trwy'r gweithgareddau craffu hyn, mae'r aelodau'n cynnal trafodaethau proffesiynol â'r pennaeth a'r staff addysgu, maes o law, i'w cefnogi a chynllunio camau gwella. Enghraifft dda yw cydweithio effeithiol y pennaeth gydag aelodau'r corff llywodraethol wrth lunio arweiniad clir sy'n cynnwys disgwyliadau uchel am bresenoldeb disgyblion. Mae'r corff llywodraethol yn cydweithio'n effeithiol â staff addysgu a disgyblion wrth werthuso a hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr yn rheoli cyllideb yr ysgol a'r grant datblygu disgyblion yn ofalus ac yn sicrhau bod disgyblion yn cael y gefnogaeth briodol. Maent yn dyrannu'r adnoddau yn dda ac yn buddsoddi amser a chyllid yn effeithiol i sicrhau darpariaeth apelgar sy'n cyfoethogi profiadau dysgu disgyblion.

Mae gan yr ysgol brosesau hunanwerthuso trylwyr sy'n sicrhau adnabyddiaeth gadarn arweinwyr o'r cryfderau a meysydd i'w gwella. Mae athrawon yn gyfarwydd â dulliau addysgu ei gilydd ac yn craffu ar waith disgyblion a chynnal teithiau dysgu'n rheolaidd. Mae'r cyfleoedd effeithiol i ymgorffori llais disgyblion a rhieni yn cyfrannu'n llwyddiannus at adnabyddiaeth arweinwyr o'u hysgol. Enghraifft o hyn yw gwaith y 'Criw Cwricwlwm' sy'n myfyrio ar natur y ddarpariaeth a phedwar diben Cwricwlwm i

Gymru er mwyn dylunio a diwygio’r cwricwlwm. Mae blaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol yn deillio’n uniongyrchol o’r prosesau hunanwerthuso ac yn cael eu perchnogi’n llawn gan staff. Mae camau cadarn ar waith i fonitro cynnydd at ddeilliannau ac maent yn cael eu rhannu’n gyson â’r corff llywodraethol.

Mae pob aelod o staff yn deall eu cyfrifoldebau’n dda ac yn awyddus i fanteisio ar gyfleoedd dysgu proffesiynol priodol. Mae trefniadau rheoli perfformiad effeithiol ar gyfer y pennaeth a’r athrawon yn cydbwyso dyheadau proffesiynol unigolion a chyfeiriad gwella cyfredol yr ysgol. Mae arweinwyr yn annog staff dysgu i fynychu hyfforddiant perthnasol ac i raeadru gwybodaeth arwyddocaol a chefnogi eu cydweithwyr. Mae perthynas broffesiynol effeithiol rhwng y staff addysgu ac ysgolion lleol yn arwain at ddatblygu arferion cyson. Er enghraifft, fel aelod o rwydwaith o ysgolion yn yr awdurdod, mae cydweithio llwyddiannus rhwng staff wedi arwain at arbrofi â dulliau effeithiol o addysgu sillafu Saesneg. Mae hyn yn barod wedi cychwyn arwain at welliannau yn sillafu Saesneg disgyblion.

Mae’r berthynas agos a chadarnhaol rhwng yr ysgol a’r rhieni yn nodwedd gref. Mae staff yn defnyddio dulliau cyfathrebu digidol yn effeithiol er mwyn rhannu gwybodaeth ac i ddathlu llwyddiannau’r disgyblion. Mae’r ysgol yn cynnal digwyddiadau cymunedol rheolaidd sy’n cyfrannu’n sylweddol at yr ethos teuluol. Er enghraifft, mae disgyblion yr ysgol wedi casglu arian at apêl daeargryn Syria drwy gynnal bore coffi a pherfformiadau gan y disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru: Estyn

© Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 27/11/2023